Ymateb ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg sy'n dwyn y teitl Bagloriaeth y Dyfodol: Statws cymhwyster Bagloriaeth Cymru.

Mae Bagloriaeth Cymru yn gymhwyster eang ei gwmpas sy'n addysgu sgiliau dysgu hanfodol. Mae'n galluogi disgyblion i ddod yn fwy annibynnol, yn fwy beirniadol yn eu ffordd o feddwl ac yn fwy hyblyg yn eu ffordd o weithio.

Ym mis Medi 2015, cyflwynwyd Bagloriaeth Cymru newydd, fwy trwyadl i'w haddysgu ar lefelau Sylfaen, Cenedlaethol ac Uwch, yn seiliedig ar argymhellion o'r Adolygiad o Gymwysterau ar gyfer pobl ifanc 14 i 19 oed yng Nghymru. Roedd y gwaith o ddatblygu Bagloriaeth Cymru yn cynnwys sefydliadau addysg uwch, cyflogwyr ac arbenigwyr o bob cwr o'r DU, ac mae cynnwys y fanyleb yn cynnig dewis o fodelau cyflwyno i ysgolion, fel y gellir bodloni gofynion y cwricwlwm mewn ffordd greadigol.

Mae Bagloriaeth Cymru, fel cymhwyster diwygiedig, yn gymharol ifanc a bydd yn parhau i ddatblygu dros amser. Ar hyn o bryd, dim ond dwy set o ganlyniadau sydd wedi bod ers i'r cymhwyster gael ei roi ar waith ym mis Medi 2015. Cyhoeddodd Cymwysterau Cymru adolygiad o'r Dystysgrif Her Sgiliau yn 2018, ac mae gwaith yn mynd rhagddo i ymateb i'r argymhellion.

Hoffwn ddiolch i aelodau'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg am eu hadroddiad ar Fagloriaeth Cymru. Rwy'n arbennig o falch o weld bod argymhellion y Pwyllgor yn cyd-fynd yn fras â'n cynlluniau presennol a'n cynlluniau ar gyfer y dyfodol. Rwyf wedi amlinellu fy ymateb i argymhellion unigol yr adroddiad isod.

Amlinellir ymatebion manwl i argymhellion yr adroddiad isod:

Argymhelliad 1
Mae'r Pwyllgor yn argymell:

Bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi datganiad cliriach ynghylch ei gweledigaeth ar gyfer Bagloriaeth Cymru, a bod y datganiad yn cael ei ategu gan ganllawiau sy'n rhoi manylion am ei disgwyliadau o ran cysondeb darparu'r cymhwyster yng Nghymru a'r adnoddau y dylai ysgolion a cholegau sicrhau eu bod ar gael i addysgu'r cymhwyster yn effeithiol.

Ymateb: Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru yn adolygu'r canllawiau sydd ar gael ar Fagloriaeth Cymru a'r dull o'i chyflwyno ar hyn o bryd, a bydd yn cyhoeddi canllawiau cliriach ar y wefan maes o law.

Mae Cymwysterau Cymru a CBAC yn cynnig gwybodaeth ac adnoddau am ddim, gan gynnwys astudiaethau achos, ar eu gwefannau.

Goblygiadau Ariannol: Dim. Caiff y gwaith hwn ei wneud gan staff presennol Llywodraeth Cymru.

Argymhelliad 2
Mae'r Pwyllgor yn argymell:

Bod Llywodraeth Cymru a Cymwysterau Cymru yn cydweithio i ddarparu ymgyrch codi ymwybyddiaeth â ffocws ar gyfer busnesau a sefydliadau addysg uwch. Dylai'r ymgyrch hon geisio cynyddu dealltwriaeth o'r sgiliau a ddatblygir o dan Fagloriaeth Cymru ac annog mwy o gydweithredu gyda'r sectorau hynny wrth ei dylunio a'i darparu, er mwyn sicrhau eu hymgysylltiad a'u cefnogaeth.

Ymateb: Derbyn

Mae fy swyddogion yn cydweithio'n agos â Cymwysterau Cymru a CBAC i lunio cynllun cyfathrebu ar y cyd er mwyn sicrhau ein bod i gyd yn cyfrannu at esbonio a hyrwyddo Bagloriaeth Cymru, a'r Dystysgrif Her Sgiliau yn benodol, i rieni a dysgwyr a sicrhau bod prifysgolion a chyflogwyr yn deall y sgiliau y bydd dysgwyr yn eu meithrin wrth astudio'r cymhwyster hwn.

Mae Cymwysterau Cymru a CBAC eisoes yn darparu cyfoeth o wybodaeth am Fagloriaeth Cymru ar-lein, gan gynnwys astudiaethau achos, fideos, blogiau a thystebau. Nod y cynllun cyfathrebu fydd sicrhau ein bod yn cyrraedd y gwahanol gynulleidfaoedd â negeseuon priodol.

Goblygiadau Ariannol: Daw unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â rhoi'r cynllun cyfathrebu ar waith o gyllidebau rhaglenni presennol.

Argymhelliad 3
Mae'r Pwyllgor yn argymell:

Bod Llywodraeth Cymru yn gwneud gwaith i ddarparu rhestr gynhwysfawr o'r prifysgolion hynny sy'n derbyn Bagloriaeth Cymru yn eu cynigion. Dylai'r rhestr hon gynnwys manylion am sut yn union y mae pob prifysgol yn trin Bagloriaeth Cymru, a ph'un a yw'n:

- cael ei derbyn fel cymhwyster Safon Uwch cyfatebol;
- cael ei defnyddio i alluogi cynnig amgen drwy ostwng y gofynion gradd mewn pynciau eraill;
- cael ei hystyried ddim ond fel rhan o ddatganiad personol ymgeisydd.

Ymateb: Derbyn

Mae CBAC yn mynd ati'n rheolaidd i gasglu gwybodaeth am brifysgolion sy'n derbyn Bagloriaeth Cymru a'r ffordd y caiff ei derbyn. Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda CBAC, Cymwysterau Cymru, UCAS a rhanddeiliaid eraill i sicrhau y caiff y

wybodaeth hon ei chasglu mewn modd systematig, ei diweddaru'n barhaus a'i darparu i ddysgwyr, rhieni/gwarcheidwaid ac ysgolion.

Goblygiadau Ariannol: Dim. Daw unrhyw gostau ychwanegol o gyllidebau rhaglenni presennol.

Argymhelliad 4
Mae'r Pwyllgor yn argymell:

Bod Cymwysterau Cymru yn ystyried ar unwaith a yw un Swyddog Cyswllt Addysg Uwch yn ddigonol i sefydlu darlun o'r dirwedd addysg uwch mewn perthynas â Bagloriaeth Cymru, a chodi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth ohoni ar draws y sector. Dylid ailddyrannu adnoddau yn ôl yr angen i roi mwy o ffocws ar y maes hwn yn ogystal â darparu mwy o gynnydd, gan gynnwys penodi Swyddog(ion) Cyswllt Addysg Uwch ychwanegol os bydd angen.

Ymateb: Nid yw'n briodol i'r Gweinidog Addysg dderbyn na gwrthod yr argymhelliad hwn am ei fod wedi'i gyfeirio at Cymwysterau Cymru. Cymwysterau Cymru ddylai wneud y penderfyniad hwn yn seiliedig ar ei ofynion.

Goblygiadau Ariannol: Dim.

Argymhelliad 5
Mae'r Pwyllgor yn argymell:

Bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi, fel mater o flaenoriaeth, ganllawiau cryfach a mwy manwl ar y polisi sy'n ymwneud â mabwysiadu'r cymhwyster yn gyffredinol. Dylai'r canllawiau hyn nodi'n glir yr amgylchiadau lle gall dysgwyr gael eu heithrio rhag astudio'r Dystysgrif Her Sgiliau, a dylai fod yn destun asesiad trylwyr a chynhwysfawr o effaith ar hawliau plant.

Ymateb: Derbyn

Fel y nodwyd yn yr ymateb i Argymhelliad 1, mae Llywodraeth Cymru wrthi'n diweddaru'r canllawiau ar Fagloriaeth Cymru a'r ffordd y caiff ei chyflwyno, i'w cyhoeddi ar y wefan. Bydd y polisi ynghylch mabwysiadu Bagloriaeth Cymru yn gyffredinol wedi'i gynnwys yn y canllawiau hyn.

Nid yw Bagloriaeth Cymru yn bwnc statudol yn y cwricwlwm cenedlaethol, ac felly nid yw'n orfodol i bob disgybl. Dyfernir Bagloriaeth Cymru i ddysgwr os bydd wedi ennill cyfuniad penodol o gymwysterau. Dylai pob dysgwr gael y cyfle i gael budd o astudio'r Dystysgrif Her Sgiliau – mae'n amhrisiadwy o ran meithrin y sgiliau sydd eu hangen ar ddysgwyr ar gyfer astudiaethau pellach a gwaith. Mae hefyd yn helpu dysgwyr i berfformio'n dda yn eu pynciau eraill, gan roi mwy o hyder a phrofiad addysgol mwy cyflawn iddynt. Fodd bynnag, wrth benderfynu pa ddysgwyr a ddylai astudio Bagloriaeth Cymru, disgwylir i benaethiaid a phrifathrawon arfer eu barn broffesiynol er mwyn pennu'r rhaglen ddysgu gywir i'r dysgwyr, a fydd yn cynnwys ystyried lles y person ifanc a'i allu i wireddu ei botensial.

Caiff asesiad o'r effaith ar hawliau plant ei gyflawni gan Lywodraeth Cymru.

Goblygiadau Ariannol:
Dim. Caiff y gwaith hwn ei wneud gan staff presennol Llywodraeth Cymru.

Argymhelliad 6
Mae'r Pwyllgor yn argymell:

Bod Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu ag ysgolion a sefydliadau Addysg Bellach i gadarnhau:

- a yw dysgwyr mewn ardaloedd ar y ffin yn dewis astudio yn Lloegr er mwyn osgoi Bagloriaeth Cymru; ac
- a yw colegau a sefydliadau chweched dosbarth yn defnyddio hyblygrwydd o ran Bagloriaeth Cymru i farchnata atyniad i ddysgwyr,

ac adrodd yn ôl i'r Pwyllgor o fewn chwe mis ar ei chanfyddiadau.

Ymateb – Derbyn mewn egwyddor

Ar hyn o bryd, dim ond tystiolaeth anecdotaidd bod dysgwyr yn symud dros y ffin y mae Llywodraeth Cymru yn ymwybodol ohoni. Byddwn yn ymchwilio i ddulliau o nodi faint o ddysgwyr ôl-16 sy'n astudio dros y ffin. Ar ôl sefydlu sail dystiolaeth gadarn mewn perthynas â maint y broblem, byddwn yn archwilio dichonoldeb gwneud gwaith ymchwil er mwyn deall i ba raddau y mae Bagloriaeth Cymru yn ffactor allweddol wrth i'r grŵp hwn wneud penderfyniadau ac yn archwilio ffactorau eraill sy'n dylanwadu ar ddewisiadau.

O ran bod yn hyblyg mewn perthynas â'r ffordd y caiff Bagloriaeth Cymru ei marchnata i ddysgwyr, bydd Llywodraeth Cymru yn comisiynu adolygiad o'r ffordd y mae colegau a'r chweched dosbarth yn marchnata eu darpariaeth ar hyn o bryd.

Nid yw'r amserlen ar gyfer cyflawni'r ddau ddarn o waith ymchwil yn ddichonadwy o ystyried ble rydym arni yn y flwyddyn academaidd a'r hyn y bydd angen ei wneud i gasglu data ystyrlon. Dyna pam rydym yn derbyn yr argymhelliad mewn egwyddor. Bydd Llywodraeth Cymru yn anelu at gomisiynu'r gwaith hwn i ddechrau yn ystod y flwyddyn academaidd nesaf.

Goblygiadau Ariannol: Daw unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â chyflawni'r gwaith ymchwil o gyllidebau rhaglenni presennol.

Argymhelliad 7
Mae'r Pwyllgor yn argymell:

Bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod iechyd meddwl a lles dysgwyr yn flaenllaw yn yr holl ystyriaethau a'r gweithgarwch y mae'n ymgymryd â hwy mewn perthynas â dyfodol Bagloriaeth Cymru. Dylai Llywodraeth Cymru hefyd ymgysylltu â Cymwysterau Cymru i sicrhau bod iechyd meddwl a lles dysgwyr wrth wraidd gwaith ei Grŵp Dylunio.

Ymateb: Derbyn

Mae iechyd a lles dysgwyr wrth wraidd ein diwygiadau addysg. Ein nod yw galluogi pob dysgwr i wireddu ei botensial. Fel yr amlinellwyd mewn ymateb i Argymhelliad 5, dylai pob dysgwr gael y cyfle i gael budd o astudio'r Her Sgiliau. Fodd bynnag, disgwylir i benaethiaid a phrifathrawon arfer eu barn broffesiynol er mwyn pennu'r rhaglen ddysgu gywir i'r dysgwyr, a fydd yn cynnwys ystyried lles y person ifanc a'i allu i wireddu ei botensial.

Bydd iechyd meddwl a lles dysgwyr hefyd yn un o ystyriaethau'r Grŵp Dylunio sy'n adolygu'r Dystysgrif Her Sgiliau ar hyn o bryd. Bydd Cymwysterau Cymru yn cynnal ymgynghoriad ynghylch y Dystysgrif Her Sgiliau maes o law a byddai'n croesawu unrhyw adborth o ran p'un a allai'r newidiadau arfaethedig gael effaith ar iechyd a lles dysgwyr.

Bydd y Pwyllgor hefyd yn ymwybodol o'n gwaith mewn ymateb i'w adroddiad blaenorol Cadernid Meddwl, fel yr amlinellwyd yn y diweddariad ar weithgarwch hyd yma a roddwyd gennym i'r Pwyllgor ym mis Ebrill 2019. Drwy sefydlu Cyd-grŵp Gorchwyl a Gorffen y Gweinidogion, rydym yn sicrhau ein bod yn archwilio pob agwedd ar y ffordd rydym yn cefnogi lles emosiynol a meddyliol dysgwyr er mwyn sicrhau y gallant fanteisio i'r eithaf ar eu profiad dysgu.

Goblygiadau Ariannol: Dim. Daw unrhyw gostau ychwanegol o gyllidebau rhaglenni presennol.

Argymhelliad 8
Mae'r Pwyllgor yn argymell:

Bod Llywodraeth Cymru yn gwneud gwaith i fonitro'n barhaus effaith Bagloriaeth Cymru a diwygiadau addysg eraill ar y cwricwlwm ehangach.

Ymateb: Derbyn

Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried yr argymhelliad hwn wrth gynllunio a datblygu gwaith ymchwil a monitro yn y dyfodol er mwyn gwerthuso effaith ein diwygiadau ymchwil.

Goblygiadau Ariannol: Dim. Daw unrhyw gostau ychwanegol o gyllidebau rhaglenni presennol.

Argymhelliad 9
Mae'r Pwyllgor yn argymell:

Bod Llywodraeth Cymru yn gwella'r modd y caiff Bagloriaeth Cymru ei darparu drwy:

- sicrhau bod addysg gychwynnol athrawon a datblygiad proffesiynol parhaus yn addas at y diben ar gyfer ei darparu;

- sicrhau bod system ar gyfer rhannu arfer gorau yn cael ei sefydlu ar draws ysgolion a cholegau yng Nghymru;
- cyhoeddi canllawiau sy'n amlinellu'r disgwyliad y bydd pob ysgol yn dilyn arfer gorau drwy gael Cydlynydd Bagloriaeth Cymru dynodedig ac arbenigol;
- archwilio a oes angen deunyddiau/adnoddau Bagloriaeth Cymru gwell, ac os felly, eu darparu.

Ymateb: Derbyn

Mae'r ymateb i'r argymhelliad hwn yn dilyn trefn y pwyntiau bwled

- Yn dilyn achrediad annibynnol, bydd pedair partneriaeth addysg gychwynnol athrawon (AGA) yn cyflwyno rhaglenni AGA yng Nghymru o fis Medi 2019 ymlaen. Fel rhan o'r gwaith o fodloni'r gofynion achredu, bydd y partneriaethau hyn yn sicrhau y gall athrawon newydd addysgu pedwar diben y cwricwlwm a'r meysydd dysgu a phrofiad. Mae'r sgiliau a'r addysgeg sy'n gysylltiedig ag addysgu'r cwricwlwm newydd yn cyd-fynd yn agos a gellir eu trosglwyddo i addysgu cymhwyster Bagloriaeth Cymru. Bydd yr holl ddysgu proffesiynol a gyflwynir gan CBAC a'r consortia rhanbarthol i gefnogi'r gwaith o addysgu Bagloriaeth Cymru yn cyd-fynd â'r Dull Cenedlaethol ar gyfer Dysgu Proffesiynol. Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru yn cyflawni astudiaeth pennu cwmpas ar gyfer dysgu proffesiynol yn y sector ôl-16. Caiff yr adroddiad ar yr astudiaeth ei chyhoeddi yn yr haf, a bydd yn cynnwys argymhellion ynghylch cymwysterau ymarferwyr a datblygiad proffesiynol parhaus ar gyfer y sector.
- Mae Swyddogion Cymorth Rhanbarthol CBAC yn nodi arfer gorau mewn ysgolion a cholegau addysg bellach a rennir drwy gyfarfodydd rhwydwaith a Chonsortia Rhanbarthol. Bydd Llywodraeth Cymru yn trafod â CBAC, Cymwysterau Cymru a chonsortia rhanbarthol sut y gellir rhannu arfer gorau drwy ddulliau eraill, e.e. drwy Hwb (sy'n cael ei ymestyn i gynnwys cyfrifon ar gyfer ymarferwyr ôl-16 ar hyn o bryd).
- Nid lle Llywodraeth Cymru yw penderfynu sut y dylai ysgolion neu golegau strwythuro eu staff i gyflwyno'r cwricwlwm. Fodd bynnag, mae Cymwysterau Cymru wedi cynnal holiadur yn ddiweddar ymhlith canolfannau sy'n cyflwyno Bagloriaeth Cymru er mwyn deall yn well sut y caiff ei chyflwyno a'i hamserlennu, pa adnoddau a ddarperir ar ei chyfer ac ati. Y nod yw datblygu astudiaethau achos o arfer gorau yn seiliedig ar ganfyddiadau'r gwaith hwn, a allai gynnwys cael cydlynydd Bagloriaeth Cymru dynodedig, neu fodelau cyflwyno effeithiol eraill.
- Mae Cymwysterau Cymru a CBAC yn cynnig gwybodaeth ac adnoddau am ddim, gan gynnwys astudiaethau achos, ar eu gwefannau. Wrth i'r Dystysgrif Her Sgiliau ddiwygiedig barhau i gael ei datblygu, bydd Llywodraeth Cymru yn trafod â'r Grŵp Dylunio a rhanddeiliaid eraill p'un a oes angen adnoddau newydd ac, os felly, beth yw'r ffordd orau o ddatblygu'r adnoddau hyn i gefnogi'r gwaith cyflwyno.

Goblygiadau Ariannol: Dim byd ar hyn o bryd. Byddai angen i unrhyw oblygiadau ariannol gael eu hystyried ar ôl i ni bennu a oes angen adnoddau newydd. Caiff cyngor ar ganlyniadau'r Astudiaeth Pennu Cwmpas ar gyfer Dysgu Proffesiynol Ôl-16 ei gyflwyno yn yr hydref.

Argymhelliad 10
Mae'r Pwyllgor yn argymell:

Bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod y gwersi a ddysgwyd ers cyflwyno'r Fagloriaeth Cymru newydd yn 2015 yn cael eu hadolygu'n systematig a'u defnyddio ochr yn ochr â chasgliadau Adroddiad Wavehill a'r canlyniadau sydd i ddod yn sgil gwaith Grŵp Dylunio Cymwysterau Cymru i lywio'r gwaith o ddylunio, gweithredu, darparu adnoddau a rhoi cyhoeddusrwydd i'r cwricwlwm newydd yng Nghymru.

Ymateb: Derbyn

Rydym yn llywio'r cyfnod mwyaf o ddiwygio addysgol ers degawdau, gan gyflwyno cwricwlwm trawsnewidiol ar gyfer plant a phobl ifanc yng Nghymru. Mae Cenhadaeth ein Cenedl yn nodi sut y bydd y system ysgolion yn symud ymlaen, pan fydd y cwricwlwm newydd yn cael ei roi ar waith o 2022 ymlaen, gyda ffocws ar arweinyddiaeth, dysgu proffesiynol a rhagoriaeth a thegwch mewn system hunanwella.

Felly, wrth ddatblygu Cwricwlwm i Gymru 2022, mae'n hollbwysig ein bod yn dysgu'r gwersi o'r rhaglenni blaenorol a gyflwynwyd, gan gynnwys cyflwyno Bagloriaeth Cymru yn 2015, a byddwn yn ystyried yn ofalus gasgliadau Adroddiad Wavehill a chanlyniadau gwaith Grŵp Dylunio Cymwysterau Cymru sydd heb eu cyhoeddi eto.

Rydym eisoes yn gweithredu ar sail y gwersi a ddysgwyd o'r adroddiad hwn a thystiolaeth arall. Mae'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu newydd wedi bod ar gael i roi adborth arnynt; cawsant eu cynllunio gan y proffesiwn mewn partneriaeth â chonsortia rhanbarthol, Estyn, Cymwysterau Cymru ac amrywiaeth o randdeiliaid ac arbenigwyr eraill gan gynnwys cymdeithasau dysgedig, Addysg Uwch a busnes.

Mae gwerth £24 miliwn o gyllid ychwanegol wedi cael ei ddarparu i ysgolion ar gyfer datblygiad proffesiynol eu staff er mwyn paratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd.

Yn ystod y cam nesaf hwn o waith datblygu ar y cyd, rydym yn gwahodd adborth gan amrywiaeth eang o randdeiliaid er mwyn i'r ymarferwyr a ddatblygodd y cwricwlwm newydd allu ei fireinio ymhellach, a byddwn yn adolygu'r gwersi a ddysgwyd fel rhan o'r broses hon.

Goblygiadau Ariannol: Mae gwerth £24 miliwn o gyllid ychwanegol wedi cael ei ddarparu i gefnogi cyfleoedd datblygu proffesiynol ar gyfer y cwricwlwm newydd (£9m yn 2018-19 a £15m yn 2019-20). Daw unrhyw gostau ychwanegol o gyllidebau rhaglenni presennol.